**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 19 Rhagfyr 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | C R Doyle | D W Helliwell |
| L R Jones | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Paul Evans | Gweithiwr Prosiect Diogelwch Cymunedol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Paul Thomas | Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins a/ac Y V Jardine

---

## 38 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Cyhoeddodd y Cynghorwyr D W Helliwell ac L R Jones gyswllt personol â chofnod 42, "Cynllun Gweithredu Benthyca Llog Uchel".

## 39 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018 fel cofnod cywir.

## 40 Cyflwyniad - Ymatebion Cadarnhaol i Egwyddorion Diwygio Lles.

Darparodd Pennaeth Tlodi a'i Atal gyflwyniad am yr atebion cadarnhaol i'r Egwyddorion Diwygio Lles.

Amlinellodd brif ganfyddiadau data'r Single Household Benefit Extract (SHBE) mewn perthynas â'r canlynol:

- Mawrth 2017 - 17,500 o aelwydydd;
- Mawrth 2018 - 25,000 o aelwydydd;
- Medi 2018 - 24,500 o aelwydydd.

Amlinellodd ragfynegiad o'r sefyllfa yn 2020 yn seiliedig ar drywydd data o fis Mawrth a mis Medi 2018, yr oedd canlyniadau'r ddau'n destun pryder mawr.

Mae'r gwaith a wnaed hyd yn hyn yn cynnwys y canlynol:

- Ymagwedd sy'n seiliedig ar 'Dîm Abertawe';
- Gweithio gydag adrannau amrywiol megis Tlodi a'i Atal, Tai, a Refeniw a Budd-daliadau er mwyn ehangu'r ymagwedd;
- Cynnig cefnogaeth gyllidebu a chefnogaeth ddigidol er mwyn helpu pobl gyda'u hawliadau (cefnogaeth gyllidebu'n symud i Gyngor Ar Bopeth Abertawe o fis Ebrill 2019);
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cefnogaeth ychwanegol;
- Cyhoeddwyd arweiniad hawdd ar ffurf taflen;
- Cynigir cefnogaeth wrth ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd;
- Partneriaethau cadarnhaol â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Waith;
- Gweithio'n agos gyda Coastal Housing i gynnig cefnogaeth ar gyfer tai cymdeithasol;
- Adolygu'r gefnogaeth a ddarperir gan y Tîm Hawliau Lles a sut y gellir gwella hyfforddiant drwy ddefnyddio gweminarau etc er mwyn cyrraedd ystod ehangach o bobl.

Mae'r camau nesaf yn cynnwys:

- Cadarnhau'r polisi defnydd data;
- Cynnig cefnogaeth ariannol i'r rheiny sydd mewn angen megis i leihau dyled o ran rhent er mwyn lleihau'r niferoedd sydd mewn perygl o gael eu troi allan;
- Nifer yr oriau gofal plant ychwanegol ar gyfer 157 o aelwydydd;
- Targedu aelwydydd mewn perthynas â'r trydydd plentyn/plentyn dilynol na fyddai'n derbyn Credydau Treth Plentyn;
- Targedu'r teuluoedd sydd mewn perygl.

Gallai'r cynghorwyr helpu drwy gyfeirio eu hetholwyr i'r wybodaeth berthnasol. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o greu dogfen wybodaeth maint cerdyn credyd sy'n cynnwys rhifau ffôn defnyddiol.

Soniodd Pennaeth Tlodi a'i Atal am y newyddion cadarnhaol gan Julie Mallinson, Undeb Credyd Celtic, a oedd yn bresennol yng nghyfarfod mis Medi. O ganlyniad i'r gwaith yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, roedd gwerth £2.5m ychwanegol i'r economi leol drwy fenthyciadau a chynilion.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Tlodi a'i Atal am y cyflwyniad. Byddai Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell - Pobl yn darparu fersiwn â mwy o fanylder i'r cyngor ar 20 Rhagfyr 2018.

**Penderfynwyd:**

1. Y dylid nodi'r cyflwyniad:
2. Cyhoeddi dogfen wybodaeth maint cerdyn credyd sy'n cynnwys rhifau ffôn defnyddiol.

## 41 Cyflwyniad - Rhoi'n Gall.

Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaeth a Chomisiynu gysyniad y Cynllun Rhoi'n Gall - "Have a Heart - Give Smart".

Rhoddodd Paul Evans, Swyddog Prosiect Diogelwch Cymunedol, gyflwyniad a oedd yn amlinellu'r canlynol:

- Cysyniad a ddatblygwyd yng Nghanada yn 2005;
- Llawer o gynlluniau Rhoi'n Gall eraill drwy'r DU;
- Model ar gyfer Abertawe sy'n seiliedig ar fenter BID Guildford;
- Bod y cynllun wedi'i gyflwyno i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel i'w gymeradwyo ym mis Hydref 2017;
- Lansiwyd ym mis Ionawr 2018 fel cynllun peilot;
- Wedi'i ariannu ar y cyd gan Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel drwy gronfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a BID Abertawe;
- Ni ddefnyddiwyd cronfeydd craidd y cyngor;
- Cyfnod prawf ar draws canol dinas Abertawe.

Esboniodd y sefyllfa bresennol:

- Medi 2018 - Wedi'i ehangu i gynnwys Abertawe gyfan;
- Mae Castell-nedd a Phort Talbot wedi ymuno â'r cynllun drwy eu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol;
- Hyd yn hyn, codwyd £700;
- Un cais gan Y Wallich i ariannu'r clybiau brecwast;
- Mae'r rownd ariannu nesaf ar agor;
- Casgliad ar ddiwrnod gêm y Gweilch ym mis Rhagfyr;
- Hyrwyddir y cynllun gan Heddlu De Cymru ac asiantaethau partner eraill Abertawe Mwy Diogel.

Nododd fod y canlynol yn rhan o'r cynllun:

- 21 o fusnesau yng nghanol dinas Abertawe;
- 20 o fusnesau gyda'r hwyr yng nghanol y ddinas;
- 6 busnes yn Uplands;

I gloi, gofynnodd i'r pwyllgor ystyried a ydynt am newid y neges ar y brandio. Os felly, mae angen iddynt awgrymu neges newydd.

Byddai goblygiad o ran cost os yw'r brandio'n cael ei addasu. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw benderfyniad gael ei ystyried gan BID, y Gymdeithas Rheoli Trefi a

Dinasoedd, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Castell-nedd Port Talbot.

Mynegodd y pwyllgor bryderon mewn perthynas â'r cysyniad cyffredinol, yn enwedig y geiriad ar y brandio (y gair "problem"), y ffaith mai £700 yn unig a godwyd mewn blwyddyn ac mai dim ond un sefydliad oedd wedi cyflwyno cais am gyllid. Mynegwyd pryderon hefyd am nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi'i gynrychioli ar y Gynhadledd Amlasiantaeth Atgyfeirio Asesu Risg.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad.

**Penderfynwyd:**

1. Y dylid nodi'r cyflwyniad:
2. Llunio llythyr i Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel sy'n amlinellu pryderon y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi ac yn awgrymu y gellid gwneud rhai gwelliannau i'r cynllun.

## 42 Benthyca Llog Uchel Gweithrediad Cynllun.

Darparodd y Swyddog Polisi a Strategaeth gamau gweithredu a chynnydd ar gyfer benthyca llog uchel.

Awgrymodd y pwyllgor fod angen cyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas ag Undeb Credyd Bae Abertawe, credyd fforddiadwy, grantiau a rheoli debyd ar y wefan ac ar dudalennau Facebook ac ar filiau Treth y Cyngor (os yw'n bosib);

Byddai'r Undeb Credyd hefyd ar gael cyn cyfarfod y cyngor ar 20 Rhagfyr 2018 i ddosbarthu ffurflenni aelodaeth i'r Cynghorwyr eu lledaenu i'w hetholwyr.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y llythyr i'r Cabinet wedi'i lunio. Fodd bynnag, roedd yn dal i aros am gynllun gweithredu i gyd-fynd â'r llythyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Polisi a Strategaeth am y diweddariad.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 43 Cynllun Gwaith 2018-2019.

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.35 pm

**Cadeirydd**